## Llythrennedd – Llafaredd
### Y Cyfnod Sylfaen

| Elfennau | Agweddau | Dosbarth derbyn | Blwyddyn 1 | Blwyddyn 2 |
|---|---|---|---|---|
| | | **Mae plant yn gallu:** | **Mae plant yn gallu:** | **Mae plant yn gallu:** |
| **Datblygu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau** | **Siarad** | • siarad am bethau o'u profiad a rhannu gwybodaeth<br>• dechrau rhoi geiriau mewn trefn, *e.e. tedi melyn, mynd i'r parc*<br>• mynegi hoff bethau a chas bethau<br>• siarad yn glywadwy<br>• gwneud rhai cyfraniadau perthnasol wrth chwarae rôl | • trafod pynciau cyfarwydd<br>• siarad am bethau y mae wedi'u llunio neu wedi'u gwneud, gan esbonio'r broses, *e.e. trip i'r traeth ar y bws neu mewn trên*<br>• ymestyn syniadau neu disgrifiadau drwy gynnwys rhai manylion a rhywfaint o eirfa berthnasol, *e.e. 'Rydw i'n peintio llun o mam yn gwisgo het'*<br>• siarad yn glir, gan gyfleu gwybodaeth tu hwnt i'w grŵp cyfeillion, *e.e. plant eraill*<br>• chwarae rôl, *e.e. yn y siop* | • mynegi barn a safbwynt, gan roi rhesymau a chynnig atebion priodol i gwestiynau, *e.e. oherwydd . . . , achos . . .*<br>• ymestyn eu syniadau neu eu disgrifiadau drwy gynnwys manylion perthnasol, a threfnu'r hyn y maent yn eu dweud<br>• siarad yn eglur â chynulleidfaoedd cyfarwydd, *e.e. athrawon*<br>• chwarae rôl, gan ddefnyddio iaith sy'n briodol i'r rôl ac i'r sefyllfa |
| | **Gwrando** | • dangos eu bod wedi gwrando ar bobl eraill, *e.e. tynnu llun*<br>• mwynhau canu ac adrodd hwiangerddi a rhigymau Cymraeg ar eu cof gan ymuno gydag ymadroddion cyfarwydd, *e.e. 'Mae gen i dipyn o dŷ bach twt'*<br>• gofyn cwestiynau am dopig cyfarwydd | • gwrando ar bobl eraill, â sylw cynyddol, gan ymateb yn briodol fel arfer, *e.e. cyflawni cyfarwyddiadau*<br>• ymuno mewn ystod gynyddol o rigymau, caneuon a storïau, eu hailadrodd neu eu dysgu ar y cof<br>• ailadrodd storïau neu wybodaeth<br>• dechrau holi ac ateb cwestiynau gan ddechrau defnyddio ffurfiau cywir, *e.e. Oes? Oes/Nac oes* | • gwrando ar bobl eraill gan ganolbwyntio, deall y prif bwyntiau a gofyn am eglurhad os oes ei angen<br>• ail-ddweud storïau neu wybodaeth, gan osod y digwyddiadau yn eu trefn gywir<br>• gofyn cwestiynau perthnasol i gael gwybodaeth benodol a dangos dealltwriaeth<br>• ateb cwestiynau yn gywir gan ddefnyddio ffurfiau cywir, *e.e. Ydy? Ydy/Nac ydy* |
| | **Cydweithio a thrafod** | • cyfnewid syniadau mewn trafodaethau unigol ac mewn grwpiau bach, *e.e. gyda ffrindiau*<br>• cydweithio wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau<br>• dechrau dangos ymwybyddiaeth bod rhai llythrennau yn newid ar ddechrau geiriau, *e.e. 'dau gi bach'*. | • o'u hysgogi, cyfrannu at sgyrsiau, gan gymryd eu tro ac ymateb i eraill<br>• cymryd rhan mewn gweithgareddau gydag eraill a siarad am yr hyn y maen nhw'n ei wneud<br>• dangos ymwybyddiaeth bod rhai llythrennau yn newid ar ddechrau geiriau, *e.e. y ferch.* | • cyfrannu at drafodaeth, cymryd tro i siarad a pharhau i ganolbwyntio ar y topig<br>• cydweithio i orffen tasg<br>• dechrau defnyddio ambell dreiglad a fydd wedi eu hymarfer ar lafar, *e.e. i Gaerdydd, fy mag.* |

© Hawlfraint y Goron Mehefin 2012
WG14632

| Llythrennedd – Llafaredd<br>Cyfnod Allweddol 2 | | Blwyddyn 3 | Blwyddyn 4 | Blwyddyn 5 | Blwyddyn 6 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Elfennau** | **Agweddau** | **Mae dysgwyr yn gallu:** | **Mae dysgwyr yn gallu:** | **Mae dysgwyr yn gallu:** | **Mae dysgwyr yn gallu:** |
| **Datblygu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau** | **Siarad** | • esbonio gwybodaeth a syniadau yn eglur â geirfa briodol<br>• trefnu llafaredd fel bod cynulleidfaoedd yn gallu dilyn yr hyn sy'n cael ei ddweud, e.e. *defnyddio geiriau allweddol, gosod disgrifiadau mewn trefn eglur*<br>• siarad yn eglur, gan amrywio'r mynegiant ar brydiau i helpu'r gwrandäwr a dechrau cynnwys ystod o gystrawennau ac ymadroddion sy'n weddol gywir<br>• chwarae rôl benodol am gyfnod o amser drwy ymateb a holi cwestiynau | • defnyddio iaith ac adnoddau oddi ar sgrin wrth esbonio gwybodaeth a syniadau<br>• addasu eu siarad ar gyfer sefyllfaoedd gwahanol, e.e. *rhoi gwybodaeth gefndir pan na fydd y gwrandawyr yn gyfarwydd â'r topig, gofyn cwestiynau i wirio bod y gwrandawyr yn deall*<br>• gwahaniaethu rhwng sgyrsiau byr ymhlith ffrindiau a siarad yn fwy estynedig â grŵp ehangach, gan addasu eu llefaru mewn modd priodol<br>• datblygu'r defnydd o idiomau a phriod-ddulliau mewn sgwrs<br>• chwarae rôl i ystyried materion neu senarios sy'n gysylltiedig â themâu | • ystyried ffyrdd o argyhoeddi wrth esbonio gwybodaeth a syniadau, e.e. *defnyddio geirfa, ystumiau, cynorthwyon gweledol*<br>• siarad yn eglur, gan ddefnyddio tôn ffurfiol a thaflu'r llais yn effeithiol i gynulleidfa fawr, e.e. *mewn gwasanaeth, mewn digwyddiad i'r rhieni/gofalwyr*<br>• cynnwys idiomau, priod-ddulliau, cymariaethau a diarhebion lle bo'n berthnasol mewn sgwrs<br>• ymgymryd â rôl, e.e. *cymeriad o sefyllfa hanesyddol, rhan ddychmygol mewn proses wyddonol* | • mynegi materion a syniadau yn eglur, gan ddefnyddio geirfa a chystrawennau gramadegol mewn modd priodol, e.e. *defnyddio geirfa arbenigol neu enghreifftiau i ddarlunio ystyr*<br>• amrywio mynegiant, tôn a chryfder y llais i gadw diddordeb y gwrandawyr wrth gyflwyno syniadau<br>• cynnwys ystod o gystrawennau ac ymadroddion sy'n weddol gywir<br>• dechrau gwahaniaethu rhwng iaith safonol a thafodiaith<br>• dechrau datblygu gwybodaeth o eiriau tafodieithol, e.e. *adnabod geiriau de/gogleddol, ac adnabod a defnyddio tafodiaith lleol*<br>• cynnal gweithgaredd chwarae rôl sy'n datblygu sefyllfaoedd, cymeriadau a gweithredoedd |
| | **Gwrando** | • gwrando'n ofalus a gwneud cysylltiadau â gwybodaeth flaenorol neu'r hyn y mae wedi'i ddysgu<br>• gwirio dealltwriaeth drwy ofyn cwestiynau perthnasol neu gynnig sylwadau perthnasol | • gwrando ar farn a dewisiadau pobl eraill, gan ofyn cwestiynau ac ymateb i'r cynnwys a'r safbwynt<br>• defnyddio technegau, e.e. *cymryd nodiadau, dysgu ar y cof, wrth wrando ar wybodaeth a safbwyntiau, gan fynegi dealltwriaeth o rai pwyntiau arwyddocaol* | • gwrando'n ofalus ar gyflwyniadau gan ddangos dealltwriaeth o'r prif bwyntiau<br>• ar ôl gwrando, paratoi ymateb sy'n rhoi barn ar yr hyn y mae'r siaradwr wedi'i ddweud | • gwrando'n ofalus ar gyflwyniadau gan ddangos dealltwriaeth o'r prif bwyntiau a rhesymau dros safbwyntiau<br>• holi cwestiynau a gwneud sylwadau i ymateb i'r hyn sydd wedi'i ddweud |
| | **Cydweithio a thrafod** | • cyfrannu at drafodaeth grŵp, gan rannu syniadau a gwybodaeth a helpu pawb i gyfrannu<br>• siarad yn bwrpasol er mwyn cyflawni tasg<br>• defnyddio'r treigladau mwyaf cyffredin yn gywir ar adegau, e.e. *ar ôl 'i' ac 'o', 'fy' ac 'yn' sy'n dynodi enw lle.* | • cyfrannu at drafodaeth grŵp, gan chwarae'r rolau sydd wedi'u dyrannu iddynt, e.e. *cadeirydd, ysgrifennydd*<br>• helpu grŵp i ddod i gytundeb, e.e. *ystyried rhesymau, gofyn cwestiynau*<br>• defnyddio'r treigladau mwyaf cyffredin yn gywir, e.e. *ar ôl 'i' ac 'o', 'fy' ac 'yn' sy'n dynodi enw lle.* | • cyfrannu at drafodaeth grŵp, gan gymryd rhywfaint o gyfrifoldeb dros gyflawni'r dasg yn dda, e.e. *parhau i ganolbwyntio, helpu eraill*<br>• dilyn pwyntiau mewn trafodaethau, gan ddangos cytundeb neu anghytundeb<br>• treiglo'n gywir fel rheol, yn arbennig ar ôl y mwyafrif o arddodiaid a rhagenwau. | • cyfrannu'n bwrpasol at drafodaeth i sicrhau'r meini prawf y cytunwyd arnynt<br>• datblygu ac adeiladu ar syniadau pobl eraill, e.e. *drwy ofyn cwestiynau i ystyried ymhellach, gan gynnig rhagor o syniadau*<br>• treiglo'n gywir ar ôl arddodiaid a rhagenwau, gan ddechrau dod yn ymwybodol nad ydy pob llythyren yn dilyn y drefn arferol, *e.e. y llinell.* |

© Hawlfraint y Goron Mehefin 2012

| Llythrennedd – Llafaredd<br>Cyfnod Allweddol 3 | | Blwyddyn 7 | Blwyddyn 8 | Blwyddyn 9 |
|---|---|---|---|---|
| **Elfennau** | **Agweddau** | **Mae dysgwyr yn gallu:** | **Mae dysgwyr yn gallu:** | **Mae dysgwyr yn gallu:** |
| **Datblygu gwybodaeth a syniadau** | **Siarad** | • amrywio'r hyn y maent yn dweud a sut maent yn ei ddweud er mwyn ennyn diddordeb y gwrandawyr, *e.e. mynegiant, tôn llais, strwythur brawddeg*<br>• ymateb i gwestiynau a sylwadau'r gwrandawyr yn adeiladol ac yn fanwl<br>• cynnwys ystod o gystrawennau ac ymadroddion<br>• gwahaniaethu rhwng iaith safonol a thafodiaith<br>• datblygu gwybodaeth o eiriau tafodieithol<br>• defnyddio gwybodaeth o'r pwnc yn effeithiol wrth ystyried materion a syniadau, *e.e. wrth chwarae rôl* | • cyflwyno topigau a syniadau yn gydlynus, gan ddefnyddio technegau'n effeithiol, *e.e. strwythur clir, hanesyn i ddarlunio, casgliad sy'n argyhoeddi*<br>• herio barn pobl eraill mewn modd cadarnhaol ac ymateb yn briodol o gael eu herio<br>• magu annibyniaeth gynyddol wrth ddefnyddio idiomau ac ymadroddion<br>• gwahaniaethu rhwng defnyddio iaith safonol a thafodiaith a dewis ffurf addas i'r cyd-destun<br>• datblygu gwybodaeth o eiriau tafodieithol ymhellach gan eu defnyddio yn eu gwaith creadigol<br>• defnyddio gwybodaeth o'r pwnc yn effeithiol wrth ystyried materion a syniadau, *e.e. wrth chwarae rôl* | • argyhoeddi wrth gyflwyno syniadau a materion gan ddefnyddio amryw o dechnegau i greu effaith, *e.e. honiadau, cwestiynau rhethregol, rhesymeg, apelio at y gwrandawyr, ystumiau heb eiriau*<br>• addasu'r hyn y maent yn eu dweud i gyd-fynd ag ymateb y gwrandawyr o ran cynnwys yr ymateb a dull yr ymateb<br>• defnyddio idiomau ac ymadroddion yn hyderus a chywir<br>• dewis defnyddio iaith safonol neu dafodiaith i greu effaith<br>• defnyddio eu gwybodaeth o eiriau tafodieithol yn hyderus<br>• defnyddio gwybodaeth o'r pwnc yn effeithiol wrth ystyried materion a syniadau, *e.e. wrth chwarae rôl* |
| | **Gwrando** | • gwrando'n ofalus ar gyflwyniadau gan ddangos dealltwriaeth o'r prif bwyntiau a rhesymau dros safbwyntiau<br>• ymateb yn bwyllog i syniadau pobl eraill, gan ofyn cwestiynau perthnasol<br>• derbyn syniadau newydd a safbwyntiau gwahanol | • gwrando'n ofalus ar gyflwyniadau gan ddangos dealltwriaeth o'r prif bwyntiau a rhesymau dros safbwyntiau<br>• ymateb yn bwyllog i syniadau pobl eraill, gan ofyn cwestiynau perthnasol<br>• derbyn syniadau newydd a safbwyntiau gwahanol | • gwrando'n ofalus ar gyflwyniadau gan ddangos dealltwriaeth o'r prif bwyntiau a rhesymau dros safbwyntiau<br>• ymateb yn bwyllog i syniadau pobl eraill, gan ofyn cwestiynau perthnasol<br>• derbyn syniadau newydd a safbwyntiau gwahanol |
| | **Cydweithio a thrafod** | • gwneud amrywiaeth o gyfraniadau at drafodaethau, *e.e. arwain, annog a helpu eraill, trefnu'r grŵp*<br>• trafod safbwyntiau cyferbyniol, gan anghytuno'n barchus pan fydd angen<br>• defnyddio ystod o dreigladau yn gywir yn arbennig gydag arddodiaid a rhagenwau. | • ymgymryd ag ystod o rolau wrth drafod, gan gynnwys mewn sefyllfaoedd grŵp mwy ffurfiol<br>• trafod safbwyntiau cyferbyniol, gan anghytuno'n barchus pan fydd angen<br>• treiglo'n gywir gan ddatblygu eu gwybodaeth o'r treigladau meddal, trwynol a llaes. | • ymgymryd ag ystod o rolau wrth drafod yn fwy annibynnol, gan gynnwys mewn sefyllfaoedd grŵp mwy ffurfiol<br>• trafod safbwyntiau cyferbyniol, gan anghytuno'n barchus pan fydd angen<br>• treiglo'n gywir gan ddatblygu'n gynyddol gwybodaeth o'r treigladau meddal, trwynol a llaes. |

© Hawlfraint y Goron Mehefin 2012
WG14632